# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 7**

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

**PENNOD 2**

AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

VALID FROM 01/04/2021

*Hwyluso ailstrwythuro*

**135 Dyletswyddau ar gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i hwyluso trosglwyddo**

(1) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, at ddibenion yr ailstrwythuro, gydweithredu â Gweinidogion Cymru, y cyngor arall sy'n cael ei ailstrwythuro neu'r cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r ailstrwythuro.

(2) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro y mae ei ardal i'w diddymu gymryd pob cam rhesymol—

(a) i hwyluso trosglwyddo ei swyddogaethau, ei staff, ei eiddo, ei hawliau a'i atebolrwyddau i'r cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw brif gynghorau newydd mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon, a

(b) i sicrhau bod y cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw brif gynghorau newydd, a'u staff, mewn sefyllfa i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/01/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hwyluso ailstrwythuro. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro ac eithrio un y mae ei ardal i'w diddymu gymryd pob cam rhesymol—

(a) i hwyluso trosglwyddo iddo swyddogaethau, staff, eiddo, hawliau ac atebolrwyddau y cyngor sydd o dan ystyriaeth mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon, a

(b) i sicrhau bod y cyngor a'i staff mewn sefyllfa i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro i gymryd, neu i beidio â chymryd, unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben cyflawni dyletswydd y cyngor o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 135 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/01/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hwyluso ailstrwythuro.